Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Y Gwir Anrhydeddus Thérèse Coffey AS

Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau

3 Tachwedd 2020

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol

**Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol**

Ar ran y Pwyllgor Cyllid, mynegaf ein siom nad ydych wedi rhoi caniatâd i'r Adran Gwaith a Phensiynau ddarparu tystiolaeth lafar i'n Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol.

Er ein bod yn gwerthfawrogi eich bod wedi cytuno i roi tystiolaeth ysgrifenedig, nid yw hynny'n caniatáu'r un cyfle i'r Aelodau archwilio materion yn fanwl i'r un graddau. Mae'r **trefniadau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau** yn nodi fel a ganlyn:

> *"The DWP Permanent Secretary is the Accounting Officer with overall responsibility for ensuring that the correct IT and administrative systems are in place to support the timely introduction of WRIT. Welsh Assembly committees may request that DWP provides a senior official to give evidence and DWP will consider these requests in line with Cabinet Office guidance on officials' attendance at such committees."*

Mae hwn yn ymholiad pwysig gan ei fod yn ein galluogi i ystyried y modd y mae datganoli cyllidol wedi'i roi ar waith, a sut mae'r gwahanol gyrff yn gweithio i sicrhau proses effeithiol. Rydym o'r farn ei bod yn bwysig clywed gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, a gofynnaf i chi ailystyried caniatáu i swyddog roi tystiolaeth i'n hymchwiliad yr wythnos nesaf neu fel arall bydd yn gosod cynsail o bwys – dylid rhoi'r un parch i Bwyllgorau'r Senedd â Phwyllgorau San Steffan pan mae adrannau Llywodraeth y DU yn gweithredu mewn meysydd cymhwysedd datganoledig.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS

Cadeirydd